



Rholyn cwningen

Gwnewch ddefnydd gwerth chweil o'ch bocsys cardfwrdd gwag gyda'r weithgaredd hwyliog hon ar gyfer y teulu cyfan.

Byddwch angen:

- Blwch cardfwrdd canolig/mawr
- Cardfwrdd ychwanegol (ar gyfer y clustiau)
- Pinnau marcio/papur lliw
- Cyllell grefft neu siswrn
- Selotep/glud crefft
- Peli

Dull:

- Seliwch y bocsys cardfwrdd gyda selotep/glud
- Tynnwch siâp hanner cylch ar un ochr o'r blwch, ar y gwaelod

DYSGU DRWY CHWARAE - Rholyn cwningen

- Gwnewch yn siŵr fod hwn yn fwy na maint y bêl fwyaf sydd gennych
- Defnyddiwch gyllell grefft i dorri o amgylch yr hanner cylch. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r gwaelod ynghlwm fel ei fod yn disgyn i lawr ar gyfer y geg
- Gallwch liwio hwn yn goch (neu ddefnyddio papur lliw) i gynrychioli tafod y gwningen
- Tynnwch lun trwyn, llygaid a blew ar y gwningen - gall eich plentyn helpu gyda hyn
- Defnyddiwch gardfwrdd sgrap i dorri siâp dwy glust
- Gallwch liwio rhan o'r rhain (neu ddefnyddio papur lliw) i addurno'r clustiau
- Defnyddiwch selotep/glud i osod y clustiau ar y bocs
- Unwaith y byddwch wedi gorffen addurno eich bocs rydych yn barod i chwarae
- Cymerwch eich tro yn rholio'r peli i geg y gwningen

Pam ddim?

- Beth am chwilio ar-lein ar gyfer mwy o weithgareddau plant sy'n defnyddio bocsys cardfwrdd?

Manteision y gweithgaredd hwn:

- Mae chwarae gyda pheli yn gwella sgiliau echddygol eich plentyn, cydlynu llaw a llygad ac amseriad
- Bydd rholio pêl yn datblygu sgiliau datblygu tîm eich plentyn ac yn eu dysgu i gymryd eu tro



RHYBUDD:
Dylai oedolion
dorri'r bocsys
cardbord!